

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn bresennol: Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson (Cadeirydd); Y Cynghorydd N.C. Thomas (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr G. Bruce, G.D.D. Carroll, S.M. Hanks, K.P. Mahoney a J. Protheroe.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr C.P. Franks ac E. Williams.

432 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Democrataidd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

433 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd G.M. Ball.

434 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mehefin, 2025 fel cofnod cywir.

435 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson fuddiant yn eitem 4 – Adroddiad Blynyddol Drafft Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru 2026-27 gan eu bod yn derbyn cyflog uwch fel Arweinydd Grŵp. Datganodd y Cynghorydd G.D.D. Carroll fuddiant yn yr eitem hon hefyd gan eu bod yn derbyn cyflog uwch fel Arweinwyr Grwpiau Gwrthblaid mwyaf y Cyngor, ochr yn ochr â'r Cynghorydd N.C. Thomas oherwydd eu rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

436 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2026-27 (PGD) –

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad a nododd y byddai'r Aelodau yn gyfarwydd ag ef gan ei fod yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn

flynyddol, gan fanylu ar y taliadau arfaethedig ar gyfer Cynghorwyr yn y flwyddyn ariannol nesaf. Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai hwn oedd yr adroddiad cyntaf ynglŷn â thaliadau cydnabyddiaeth, gan fod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi cymryd drosodd gyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Democratiaidd awgrym y Comisiwn o ran archwilio taliadau ailsefydlu a dywedodd y byddai'r Pwyllgor yn derbyn mwy o wybodaeth am y newid hwn wrth iddi ddod ar gael. Nododd ymhellach y gallai'r Aelodau wneud sylwadau unigol, a bod Atodiad B yn cynrychioli barn y Cyngor ar y Penderfyniadau arfaethedig, gyda'r ymatebion yn seiliedig ar flynyddoedd blaenorol, gyda Phenderfyniadau 1 a 2 yn adleisio geiriad o flynyddoedd blaenorol, a Phenderfyniadau 3 i 6 yn cynnig dim sylw gan eu bod yn feysydd nad oeddent yn effeithio'n uniongyrchol arnom ni fel Cyngor, gan nodi mai Penderfyniad 5 oedd rhewi cyflog Aelodau Cyfetholedig gan fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal adolygiad systematig o daliadau cyfetholedig ar draws pob lefel o Lywodraeth. Dywedodd, ar ôl i'r Pwyllgor gytuno ar ymateb i'r ymgynghoriad, y byddai ymateb ffurfiol yn cael ei rannu gyda Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ochr yn ochr â chofnodion y cyfarfod.

Ychwanegodd y Cynghorydd Dr. Johnson fod y Pwyllgor yn parhau i ddefnyddio'r Arolwg Blyneddol o Oriau ac Enillion (ABOE) i lywio ei gyflogau sylfaenol arfaethedig ar gyfer yr Aelodau.

Dywedodd y Cynghorydd Mahoney ei fod wedi gwrthod codiadau cyflog yn bersonol dros sawl blwyddyn, a bod y taliadau cydnabyddiaeth arfaethedig yn eithriadol o uchel, gyda'r angen i roi seibiant i drethdalwyr yn yr amgylchedd economaidd presennol. Anogodd y cyhoedd i edrych ar y symiau sy'n cael eu talu i Gynghorwyr a nododd fod yr un Comisiwn hefyd yn ceisio cynyddu nifer y Cynghorwyr o 54 i 59 yn yr Etholiad nesaf, yr oedd yn teimlo y byddai'n golygu cost uwch i drigolion. Dywedodd ymhellach na fyddai'n derbyn y cynnydd ym mis Mai ac anogodd yr Aelodau eraill i ddilyn ei esiamp.

Eglurodd y Cynghorydd Dr. Johnson mai dyma'r cyfle i lunio ymateb y Cyngor i'r cynigion, ac mai'r cynnydd arfaethedig i gyflogau oedd 6.4%, a fyddai'n golygu y byddai'r cyflog sylfaenol ar gyfer Aelodau Etholedig yn cynyddu i £21,044, ochr yn ochr â'r cyflog sylfaenol ar gyfer y Grwpiau Gwrthblaid mwyaf a Chadeiryddion Pwyllgorau yn cynyddu i £31,567, gyda dadansoddiad llawn yn ôl yr holl swyddi ar gael yn yr adroddiad.

Nododd y Cynghorydd Carroll nad oedd yn gallu cefnogi'r cynigion na'r ymatebion a amlinellwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, gan ei fod yn teimlo nad oeddent yn addas, yn synhwyrol nac yn briodol, a chynigiodd fod y Pwyllgor yn argymhell y dylai cyflog yr Aelodau sy'n derbyn cyflogau fel yr amlinellir ym Mhenderfyniadau 1, 2 a 3 gael ei rewi ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Bruce.

Nododd y Cynghorydd Thomas fod y Pwyllgor yn cael yr un drafodaeth bob blwyddyn, a bod argymhellion gan y Comisiwn yn seiliedig ar wythnos waith tri diwrnod, gyda llawer o Gadeiryddion ac Uwch Aelodau yn gwneud mwy o oriau na hyn. Ychwanegodd ymhellach, er bod llawer dan bwysau ariannol, fod y cynigion yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn adlewyrchu natur ehangach cynyddu cyflogau a

nododd, er bod llawer o Aelodau'r Cyngor yn ymwneud â gwaith Cyngorau Tref a Chymuned, nad oedd llawer yn derbyn y lwfansau a oedd ar gael.

Roedd y Cynghorydd Hanks o'r farn bod hyn yn gynnydd sylweddol ac y dylai'r Comisiwn gynyddu nifer yr etholwyr o fewn wardiau os yn cynyddu cyflogau i adlewyrchu llwyth gwaith ychwanegol, ac roedd yn teimlo nad oedd angen cynyddu nifer yr Aelodau Etholedig.

Myfyriodd y Cynghorydd Bruce ar y cyflog yn seiliedig ar wythnos waith 20 awr, a dywedodd ei bod yn credu bod rhai Aelodau yn gwneud llawer mwy na hyn; tra hefyd yn nodi nad oedd yn bosibl gwybod faint o oriau yr oedd Aelodau unigol yn gweithio gan nad oedd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi a'i choladu.

Ymatebodd y Cynghorydd Dr. Johnson gan ddweud y byddai fframwaith i fonitro trefniadau gwaith yr Aelodau yn anodd ei weithredu a'i reoli a phwysleisiodd fod y Cyngor yn gyffredinol yn dilyn argymhellion y Comisiwn.

Yn dilyn cais gan Aelod am Bleidlais Gofnodedig, cynhaliwyd y bleidlais ynghylch y gwelliant arfaethedig i'r ymateb i'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

	O Blaid	Yn Erbyn	Ymatal
Gillian Bruce	√		
George Carroll	√		
Sally Hanks		√	
Ian Johnson			√
Kevin Mahoney	√		
Neil Thomas		√	

Dywedodd y Cynghorydd Hanks hefyd nad oedd hyn yn cytuno â'r taliadau ailsefydlu arfaethedig, gyda'r Cynghorydd Mahoney yn cytuno ac yn datgan y dylai'r Aelodau golli eu cyflog pe na chânt eu pleidleisio i mewn. Mynegodd y Cynghorydd Carroll hefyd wrthwynebiad i'r egwyddor o daliadau ailsefydlu a chadarnhaodd fod y trefniadau hyn eisoes yn bodoli yn y Senedd. Nododd y Cynghorydd Dr. Johnson y gellid ychwanegu'r ffaith bod y Pwyllgor yn anghytuno â'r egwyddor o ailsefydlu ar gyfer yr Aelodau sy'n colli eu sedd mewn etholiad cyffredin o'r Cyngor hefyd at yr ymateb i'r ymgynghoriad.

PENDERFYNWYD –

(1) Y BOD Adroddiad Blynyddol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFC) yn cael ei nodi.

(2) Y BOD yr ymateb i'r ymgynghoriad i Adroddiad Blynyddol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFC) (Penderfyniadau 1 i 3) yn cael ei ddiweddarau i gynnwys bod Cyngor Bro Morganwg yn teimlo na ddylai fod cynnydd o 6.4% yng nghyflogau Aelodau, ac y dylent aros yr un fath o 2024/25.

(3) NAD yw Aelodau Cyngor Bro Morganwg yn cefnogi'r cynigion ar gyfer taliadau adsefydlu i Gynghorwyr sy'n cael eu harchwilio gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) Er mwyn sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd wedi cael cyfle i rannu eu safbwyntiau ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig ac adlewyrchu trafodaethau yn y cyfarfod.

437 DIWEDDARIAD GAN RWYDWAITH PENAETHIAID GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU (CLLLC) (PGD) –

Rhannodd Pennaeth y Gwasanaethau Democratiaidd nad oedd llawer iawn o waith yn cael ei wneud yn y gofod hwn, gan fod y ffocws ar baratoi ar gyfer yr etholiadau sydd i ddod yn y 18 mis nesaf, ond tynnodd sylw'r Aelodau at y ddau brif faes yn yr adroddiad – yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth Blynyddol, a drafodwyd yn flaenorol, a'r Arolwg Sefydlu Cynghorwyr Cenedlaethol, gyda chopi o'r cyflwyniad o'r canlyniadau Cenedlaethol a ddarparwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn Atodiad A. Rhannodd fod yr Arolwg hwn wedi'i gomisiynu gan CLILC a'i anfon drwy e-bost at yr holl Aelodau yn genedlaethol i gael syniad o'r hyn a oedd yn gweithio, yr hyn nad oedd yn gweithio, a'r hyn y gellid ei wella i gefnogi'r broses sefydlu ar gyfer 2027. Nododd y byddai'r Cynghorwyr yn nodi mai arolwg Cenedlaethol oedd hwn, ac ochr yn ochr â hyn, bod amrywiaeth o wybodaeth leol yn dilyn proses sefydlu lleol y Cyngor yn 2022, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn yn flaenorol, ac a fyddai'n cael ei defnyddio i helpu i lunio'r dysgu cenedlaethol hwn yn lleol. Cynigiodd fod yr eitem hon yn cael ei chyflwyno fel eitem benodol gyda mwy o fanylion i'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2026, yn hytrach na chanolbwyntio heddiw ar y trosolwg hwn.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a gwaith Rhwydwaith Penaethiaid y Gwasanaethau Democratiaidd.

Rheswm dros y penderfyniad

Sicrhau bod Aelodau'n ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud ynghylch Gwasanaethau Democratiaidd ar sail genedlaethol

438 GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD YR 21AIN GANRIF (PGD) –

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democratiaidd yr adroddiad i roi trosolwg o'r newidiadau arfaethedig a oedd yn cael eu harchwilio o fewn y tîm Gwasanaethau Democratiaidd, ac eglurodd, at ddibenion yr eitem hon, wrth ystyried Gwasanaeth

Democrataidd yr 21ain ganrif, roedd i fod yn un a oedd yn defnyddio ei offer a'i adnoddau yn effeithiol ac yn y ffordd fwyaf cynhyrchiol wrth wneud y mwyaf o alluoedd digidol, a thynnodd sylw at sut roedd y gwaith hwn yn cefnogi nifer o strategaethau sefydliadol a seiliau tystiolaeth; gan gynnwys ymateb i Asesiad y Panel Perfformiad, canfyddiadau Archwilio Cymru, cefnogi'r Cynllun Corfforaethol newydd, Bro 2030, Strategaeth Ddigidol y Cyngor, ochr yn ochr ag adborth a roddwyd yn ystod y sesiynau adborth Craffu gyda'r Aelodau ac ystod o ganllawiau ehangach fel y'u cynhwyswyd yn nogfennau ategol yr adroddiad. Nododd ymhellach, er bod llawer o bwyslais wedi'i roi ar ymgorffori trefniadau Craffu diwygiedig o fewn y Gwasanaethau Democrataidd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fod hefyd nifer o feysydd y tu hwnt i hyn lle roedd angen i ni foderneiddio fel Cyngor ac archwilio ffyrdd amgen o weithio, ac nad oedd hon yn rhestr gynhwysfawr ond yn cynrychioli ystod o syniadau a fyddai'n datblygu yn ailadroddol, gyda llawer wedi'i dynnu ar gyfer meysydd arfer da o Gymru a thu hwnt, gyda thabl cychwynnol yn rhoi trosolwg o'r newidiadau a'r dyddiadau gweithredu targed, gyda chefnogaeth y Map Ffordd yn Atodiad A.

Dywedodd nad yw'r Polisi Cyfarfodydd Aml-Leoliad wedi'i gynnwys gan fod archwiliad mewnol ar y gweill ar hyn o bryd, ac y byddai hyn yn elwa o fod yn eitem fanylach i'w hystyried. Tynnodd sylw at y ffaith, fel y byddai'r Aelodau'n ymwybodol, fod llawer o newid wedi bod o fewn y tîm Gwasanaethau Democrataidd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys pobl yn dechrau ac yn gadael, a bod y tîm yn adnodd yr oedd y Pwyllgor yn ei oruchwylio o fewn ei Gylch Gorchwyl, ac roedd eisiau sicrhau'r Aelodau bod digon o waith cynllunio'r gweithlu wedi bod gan gynnwys datblygu gwybodaeth a sgiliau fel yr amlinellwyd yn adrannau 2.2 i 2.10 yr adroddiad i gefnogi'r cyfeiriad teithio arfaethedig hwn.

Nododd ymhellach, o ran y prosiectau newid penodol a nodwyd, efallai y bydd yr Aelodau yn gyfarwydd â rhai ond nid pob maes a oedd yn cael ei ystyried, felly roedd trosolwg cryno byr o bob un wedi'i roi o fewn corff yr adroddiad, ac nad oedd yr adroddiad hwn yn ceisio cytundeb y Pwyllgor ar bob newid a oedd yn cael ei gyflwyno heddiw ac y byddai unrhyw newidiadau yn cael eu cymryd drwy strwythurau llywodraethu'r Cyngor fel y bo'n briodol fel eitemau unigol gyda mwy o fanylder.

Rhannodd fod y meysydd i'w hystyried wedi'u rhannu i bedair thema allweddol - gweithredu PowerBI, Prosesau Gwneud Penderfyniadau'r Cyngor, Gwefannau Mewnol ac Allanol ac awtomeiddio ffurflenni, a gofynnodd i'r Aelodau nodi cyfeiriad teithio strategaeth o fewn y meysydd Gwasanaeth Democrataidd, myfyrio ar unrhyw un o'r meysydd a nodwyd yn y map ffordd i roi adborth cychwynnol, gan gynnwys yr amserlenni arfaethedig ar gyfer gweithredu, ystyried a oedd unrhyw feysydd eraill yr oeddent yn credu y dylem fod yn eu harchwilio i ddod yn Wasanaeth Democrataidd i'r 21ain Ganrif ac i fod yn sicr bod gan y tîm y sgiliau, y capasiti a'r gallu i gefnogi'r newidiadau hyn.

Nid dyma'r cyfle olaf i rannu syniadau ar gyfer gwelliannau, a chroesawodd awgrymiadau i'r agenda foderneiddio, a dywedodd y byddai'r Pwyllgor yn cael diweddariad ymhen 12-18 mis ynghylch sut roedd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu, beth oedd yr effaith a'r gwersi posibl a ddysgwyd.

Roedd y Cynghorydd Hanks o'r farn bod hwn yn adroddiad ardderchog yr oedd wedi mwynhau ei ddarllen ond gofynnodd am eglurder ynghylch beth oedd PowerBI, a gofynnodd a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi o ran a ddylai Aelodau newydd fod yn ddi-bapur, ac ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i hyn gan ddweud bod PowerBI yn offeryn delweddu data, a ddefnyddir i ddod â gwybodaeth ynghyd o ystod o fannau mewn modd awtomataidd, a bod y Traciwr Argymhellion Craffu a lansiwyd yn ddiweddar yn defnyddio'r platfform hwn. Nododd hefyd, er ei fod yn annog yr Aelodau i gael mynediad at bapurau yn ddigidol, fod gofynion unigol fel amhariadau ar y golwg a dyslecsia a oedd yn golygu y gallai fod angen darparu copïau papur, ond bod hyn yn cael ei drin fesul achos.

Gwnaeth y Cynghorydd Carroll sylwadau ar y newidiadau Craffu diweddar, ac roedd yn parhau'n argyhoeddedig ynghylch effaith y newidiadau hyn, gan gynnwys gorchwyl a gorffen a'r llwyth gwaith cysylltiedig, a gofynnodd pryd y byddai'r rhain yn cael eu hadolygu. Awgrymodd ymhellach mewn cyfarfodydd Pwyllgor, lle cyflwynwyd cyfeiriadau heb y papur ategol, y dylid cynnwys hyperddolen gan y gallai fod yn dasg lafur-ddwys i rywun ddod o hyd i'r wybodaeth wreiddiol a gallai wella sut mae'r Aelodau a'r cyhoedd yn cael mynediad i'r wybodaeth hon.

Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gan ddweud bod ymrwymiad wedi bod erioed i adolygu'r trefniadau, ac y byddai Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad, gan ddechrau yng Ngwanwyn 2026 ac yn debygol o bara tan ddiwedd yr Haf/dechrau'r Hydref, a gofynnodd i'r Aelodau ystyried sut yr hoffent gymryd rhan orau yn y broses hon a chael eu cyfweld. Gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson am eglurder ar yr amserlen a dywedwyd wrtho, er ei fod yn dechrau yng Ngwanwyn 2026, y disgwylir y byddai'r gwaith maes yn cael ei gwblhau erbyn yr Hydref, gyda'r llywodraethu a'r ymateb priodol yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn, gydag unrhyw newidiadau sy'n deillio o hynny yn cael eu gwneud yn y flwyddyn Fwrdeistrefol ganlynol.

Croesawodd y Cynghorydd Protheroe gyflwyno PowerBI ac roedd yn credu bod y Traciwr Argymhellion Craffu yn ychwanegiad ardderchog y byddai angen cymorth ar bobl i'w ddefnyddio a'r adolygiad a oedd ar ddod o Graffu ond rhannodd mai cyfrifoldeb yr Aelodau oedd gyrru gwaith gorchwyl a gorffen trwy gymryd rhan yn weithredol, gydag angen i bob un gymryd rhan i'w wneud yn llwyddiant.

PENDERFYNWYD –

(1) BOD cynnwys yr adroddiad a'r dull arfaethedig a oedd yn cael ei gymryd i ddod yn Wasanaeth Democrataidd i'r 21ain Ganrif, gan gynnwys y map ffordd yn Atodiad A yn cael eu nodi.

(2) BOD y Pwyllgor, ar ôl ystyried a oedd unrhyw feysydd ychwanegol yr hoffent eu gweld o fewn y map ffordd hwn mewn perthynas â'r swyddogaeth Gwasanaethau Democrataidd, wedi nodi y dylid cynnal adolygiad o sut y cyflwynwyd cyfeiriadau i wella bod yn agored, tryloywder a rhwyddineb mynediad i wybodaeth.

(3) BOD y Pwyllgor wedi'i sicrhau bod gan y swyddogaeth Gwasanaethau Democrataidd ddigon o gapasiti, adnoddau a sgiliau i gyflawni'r newidiadau a

amlinellwyd yn yr adroddiad

(4) BOD diweddariad pellach ynghylch Gwasanaethau Democrataidd yr 21ain Ganrif yn cael ei adrodd ymhen 12 mis yn tynnu sylw at y cynnydd hyd yma, gwersi a ddysgwyd ac unrhyw newidiadau i'r map ffordd a gynhwyswyd yn Atodiad A yr adroddiad.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Rhoi gwybod i'r Aelodau am ddatblygiadau o fewn swyddogaeth y Gwasanaeth Democrataidd.

(2) Adlewyrchu cyfraniadau'r Aelodau o awgrymiadau ychwanegol i'r map ffordd.

(3) Caniatáu i'r Pwyllgor arfer ei gyfrifoldeb i sicrhau goruchwyliaeth ynghylch adnoddau o fewn swyddogaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

(4) Caniatáu i'r Pwyllgor fonitro ac adolygu'r map ffordd arfaethedig a ddarperir.

439 RHAGLEN WAITH YMLAEN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD (PGD) –

Rhannodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Waith Ymlaen a nododd y byddai'r Aelodau'n nodi bod hon bellach yn eitem safonol sy'n cynnwys eitemau safonol ar gyfer pob agenda, eitemau cylchol y byddent yn derbyn diweddariadau rheolaidd arnynt ac eitemau eraill a oedd ar sail achos wrth achos. Nododd y byddai'r iteriad nesaf yn cynnwys eitemau dros dro ar gyfer y flwyddyn Ddinesig sydd i ddod gan mai dim ond y flwyddyn 2025-26 y mae'n ei chynnwys ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD – Y dylid cytuno ar Raglen Waith Ymlaen dros dro'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer blwyddyn Ddinesig 2025/2026.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor gael rhaglen waith glir wedi'i strwythuro i gefnogi eu gwaith parhaus.